



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth

WG21-60



Artistic, but Proud
of it



- Nathaniel

Tudalen Gynnwys

1 Rhagair y Gweinidog

3 Cyflwyniad

4 Terminoleg

4 Diben

5 Pŵer i gyhoeddi Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth

6 Deall y dyletswyddau yn y Cod

6 Cydymffurfio â'r Cod

7 Adran 1: Trefniadau Asesu a Diagnosis ar gyfer Awtistiaeth

8 1.1: Adnabod

8 1.2: Atgyfeirio i wasanaethau asesu awtistiaeth

9 1.3: Llwybrau asesu a diagnosis ar gyfer awtistiaeth

9 1.4: Gwasanaethau asesu a diagnostig ar gyfer awtistiaeth

10 1.5: Y broses asesu a diagnostig ar gyfer awtistiaeth

11 1.6: Cymorth yn dilyn canlyniad asesiad awtistiaeth

12 Dyletswyddau ar gyfer trefniadau asesu a diagnosis ar gyfer awtistiaeth

14 Adran 2: Trefniadau ar gyfer cael gafael ar Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

15 2.1: Cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

15 2.2: Eiriolaeth

16 2.3: Gwasanaethau ataliol

16 2.4: Cymhwysra a chyniferydd deallusrwydd (IQ)


17 2.5: Asesiad ar gyfer gofal a chymorth awdurdod lleol

18 2.6: Pontio

19 2.7: Asesiadau gofalwyr

19 2.8: Cael gafael ar ofal iechyd

20 2.9: Cymorth mewn sefydliadau diogel




- 20 2.10: Gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig
- 21 2.11: Gwasanaethau i bobl awtistig sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd
- 22 Dyletswyddau ar gyfer trefniadau ar gyfer cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

24 **Adran 3: Trefniadau ar gyfer Codi Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth a Darparu Hyfforddiant**

- 25 3.1: Hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant
- 25 3.2: Codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gymuned
- 26 3.3: Dysgu a datblygu'r gweithlu
- 27 3.4: Gwasanaethau gofal sylfaenol
- 28 3.5: Gwasanaethau iechyd eilaidd a thrydyddol
- 28 3.6: Gwasanaethau gofal cymdeithasol
- 29 3.7: Sefydliadau addysgol
- 30 Dyletswyddau ar gyfer trefniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant

32 **Adran 4: Trefniadau ar gyfer Cynllunio a Monitro Gwasanaethau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

- 33 4.1: Asesiadau poblogaeth
- 33 4.2: Cynlluniau ardal
- 34 4.3: Casglu data ar awtistiaeth
- 34 4.4: Monitro a gwella gwasanaethau ar gyfer awtistiaeth
- 34 4.5: Cyfranogiad rhanddeiliaid awtistiaeth
- 35 4.6: Rôl hyrwyddwr awtistiaeth rhanbarthol
- 36 Dyletswyddau ar gyfer trefniadau ar gyfer cynllunio a monitro gwasanaethau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid
- 37 Rhestr o dermau



Rhagair y Gweinidog

Mae pawb yn unigryw ac yn haeddu cael ein trin yn gyfartal. Felly, mae'n bwysig i ddeall y ffordd mae pobl awtistig a'r rhai a chyflyrau niwroddatblygiadol eraill yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio. Mae angen i ni greu cymdeithas garedig, fwy sensitif all ymateb yn gadarnhaol a chefnogi pobl awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr a lliniaru'r pwysau y mae llawer yn dod ar eu traws wrth ddysgu addasu a deall yr amodau hyn.

Rwy'n falch iawn i gyhoeddi ein Cod Ymarfer Statudol ar Gyflawni Gwasanaethau Awtistiaeth. Mae'r Cod hwn yn nodi'r hyn y gall pobl awtistig, rhieni a gofalwyr ei ddisgwyl gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a sut yr ydym yn bwriadu addasu'r ffordd yr ydym yn trefnu cymdeithas i fod yn fwy ymwybodol a fwy atodol i niwroamrywiaeth.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth awtistiaeth gyntaf yn 2008, a chafodd ei diweddaru yn 2016 gan ddangos ein hymrwymiad cadarn i wella gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru. Cychwynnodd ein taith tuag at God Ymarfer Awtistiaeth statudol yn 2017 pan ymrwymodd y Gweinidogion ei ddatblygu i amlygu ac atgyfnerthu'r dyletswyddau presennol sydd eisoes wedi'u cynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf GIG (Cymru) 2006 fel dewis arall yn lle Bil Awtistiaeth ar wahân.

Mae cyhoeddi'r Cod Ymarfer hwn ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth yn ganlyniad o ymgynghori pellgyrhaeddol â phobl awtistig, eu rhieni a'u gofalwyr, ac â phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus, i gyd yn ceisio gwella bywydau pobl awtistig.



Rydym yn cyhoeddi'r Cod statudol hwn a'r canllawiau cysylltiedig i sicrhau bod byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau iechyd ac awdurdodau lleol a'u partneriaid yn deall y dyletswyddau sy'n bodoli i ddarparu gwasanaethau awtistiaeth sy'n seiliedig ar anghenion, gan gynnwys cymorth i ofalwyr, ac i godi ymwybyddiaeth gyda phobl awtistig am y cymorth a ddylai fod ar gael.

Hefyd, wrth ymateb i bryderon rhanddeiliaid ynghylch sut y caiff y Cod ei orfodi, mae gofynion monitro a phwerau adfer cryf sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gymryd camau i ymyrryd os nad yw gwasanaethau'n cyrraedd safonau boddhaol. Mae'r Cod hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol ystyried anghenion pobl awtistig wrth gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd angen ystyried pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys asesu sut y gall elusennau a'r trydydd sector helpu.

Mae'r dyletswyddau yn y Cod hwn yn cyd-fynd â meysydd pwysig eraill o ran polisi, Deddfwriaeth a all gael effaith sylweddol ar bobl awtistig. Mae wedi cael eu hysgrifennu gan wybod yn iawn fod rhaid iddo gydweddu â'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â'r anghenion dysgu ychwanegol a darpariaeth iechyd meddwl. Mae'r Cod hefyd wedi'i lywio gan ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) a'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Y Cod Ymarfer hwn yw'r cam nesaf inni yn natblygiad gwasanaethau awtistiaeth; ond rydym yn cydnabod fod yna rhagor i'w wneud. Drwy 2021, rydym yn parhau â'n rhaglen wella drwy gynnal adolygiad galw a chapasiti o'r holl wasanaethau niwroddatblygiadol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Trwy'r gwaith r'ydym yn gwneud byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau niwroddatblygiadol y mae'r rhai sydd angen cymorth yn eu haeddu ac yn sicrhau eu bod yn barod i fynd i'r afael â heriau'r dyfodol.

Cyd-destun COVID-19


Mae'r ymateb i COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar fywydau pawb, ond i bobl awtistig a'u theuluoedd mae wedi cyflwyno heriau neilltuol. Wrth i Lywodraeth Cymru weithredu'r Cod o fis Medi 2021 cydnabyddir efallai bydd angen mwy o gymorth ar lawer o bobl awtistig. Hefyd, bydd angen cyfnod o adfer ac ailsefydlu ar wasanaethau wrth ailgychwyn, wrth inni edrych tua'r dyfodol i sicrhau'r gwelliannau y mae'r Cod hwn yn ceisio'u cyflawni.



Eluned Morgan, AS
Y Gweinidog Iechyd
a Gwasanaethau Cymdeithasol



Lynne Neagle, AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl
a Llesiant



Cyflwyniad

Cafodd y Cod Ymarfer hwn ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth (y Cod) ei ddatblygu mewn ymateb i adborth gan bobl awtistig a'u teuluoedd a/neu eu gofalwyr, a oedd eisiau eglurder ynghylch y gwasanaethau y dylent ddisgwyl allu eu cael yng Nghymru. Mae'n ymwneud â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a swyddogaethau gwasanaethau iechyd byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG. Mae'r Cod hwn yn cyfeirio at y fframweithiau cyfreithiol sydd eisoes ar waith ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff perthnasol arfer eu priod swyddogaethau yn unol â gofynion y Cod wrth drefnu neu ddarparu gwasanaethau i bobl awtistig. Ceir rhagor o fanylion am ddehongli dyletswyddau mewn dogfen ganllaw sy'n cyd-fynd â'r Cod hwn.

Mae'r Cod hwn ar gyfer:

- pobl awtistig, gan gynnwys y rhai â chyflyrau eraill sy'n cyd-ddigwydd
- darparwyr cymorth iechyd a gofal cymdeithasol i bobl awtistig a'u teuluoedd a/neu eu gofalwyr
- ymarferwyr ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd sy'n gweithio gyda phobl awtistig a'u teuluoedd a/neu eu gofalwyr
- comisiynwyr a phobl sydd â rôl strategol yn y gwaith o asesu a chynllunio gwasanaethau lleol ar gyfer pobl awtistig a'u teuluoedd a/neu eu gofalwyr
- ymarferwyr mewn gwasanaethau cysylltiedig eraill sy'n rhoi cymorth i bobl awtistig a'u teuluoedd a/neu eu gofalwyr, er enghraifft cyflogaeth, addysg a chyfiawnder troseddol
- darparwyr gwasanaethau ac ymarferwyr sy'n darparu gwasanaethau i bobl awtistig sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd.



Terminoleg

Gan ddilyn ein hymgyngghoriad gyda grwpiau ymgysylltu a grwpiau technegol bydd y Cod yn cyfeirio at y diffiniad hwn o awtistiaeth:

“Defnyddir y term cyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth i ddisgrifio grŵp o symptomau niwroddatblygiadol cymhleth, sy’n amrywio o ran eu difrifoldeb. Y nodweddion yw heriau o ran rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu, a phatrymau cyfyngedig neu ailadroddus o ymddygiad, meddyliau a theimladau synhwyrdd”.

Bydd y termau ‘cyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth’ (ASC), ‘awtistiaeth’ a ‘pobl awtistig’ yn cael eu defnyddio’n gyfnewidiol ar gyfer unigolion ar bob rhan o’r sbectrwm awtistiaeth, gan gynnwys y rhai a ddisgrifir ar hyn o bryd fel pobl â Syndrom Asperger. Mewn achosion lle mae ‘anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth’ (ASD) eisoes wedi’i gydnabod fel term ffurfiol (e.e. Arweinydd ASD, y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau’r Sbectrwm Awtistig), dilynir hyn yn y Cod.

Bydd y Cod hwn yn defnyddio’r term ‘pobl awtistig’ yn hytrach na ‘phobl ag awtistiaeth’, er mwyn adlewyrchu dewisiadau iaith y bobl awtistig sydd wedi cyfrannu at ddatblygu’r Cod hwn. Mae’r term ‘pobl’ yn cyfeirio at blant, pobl ifanc ac oedolion. Mae’r Cod yn cydnabod pob unigolyn, waeth beth fo’u hoedran.

Hefyd, bydd y Cod yn defnyddio’r term ‘ymarferwyr’ yn hytrach na chyfeirio at broffesiynau unigol.

Nid yw’r Cod hwn yn ymdrin â chyflyrau niwroddatblygiadol eraill ond mae’n cydnabod y bydd gan rai unigolion awtistiaeth sy’n cyd-ddigwydd ag anhwylderau eraill a allai effeithio ar eu hanghenion gofal a chymorth.

Pan gyfeirir at wybodaeth, asesiadau a chymorth yn y Cod hwn, dylai’r rhain fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rhaid i’r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol ac ymddiriedolaethau’r GIG gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth yn Gymraeg.

Yn y Cod hwn, caiff **gofyniad** ei fynegi fel “rhaid”, “rhaid peidio”. Mynegir **canllawiau** fel “caiff” neu “dylai/ni ddylai”.

Mae rhestr termau ar ddiwedd y Cod.

Diben

Diben y Cod hwn yw sicrhau y gweithredir blaenoriaethau polisi awtistiaeth Llywodraeth Cymru, sydd wedi’i gyhoeddi ar hyn o bryd yn y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau’r Sbectrwm Awtistig 2016. Ynghyd â’r Cod, ceir dogfen ganllaw er mwyn helpu awdurdodau lleol a chyrrff iechyd y GIG i wybod pa gymorth a gwasanaethau y disgwylir iddyn nhw eu darparu i bobl awtistig o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

Os oes gan bobl awtistig anghenion gofal a chymorth cymwys o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bydd y canllawiau a’r Codau Ymarfer perthnasol sy’n cyd-fynd â’r Ddeddf hon yn berthnasol. Os oes gan blant ac oedolion awtistig anghenion cymorth addysgol ychwanegol, bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg 2018 a’r Cod Ymarfer cysylltiedig yn gymwys. Os oes ganddynt anghenion iechyd meddwl ychwanegol, rhaid dilyn y dyletswyddau perthnasol yn Neddf Iechyd Meddwl 1997 a Mesur Iechyd Meddwl Cymru 2010. Mae’r Cod hefyd yn ystyried gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a’r Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CAP).

Mae'r Cod hwn yn adlewyrchu gwerthoedd Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sydd â'r nod o wella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y genedl. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae'n nodi'r pum ffordd o weithio sydd eu hangen ar gyrff cyhoeddus er mwyn cyflawni'r saith nod llesiant (Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang). Mae'r dull hwn yn cynnig cyfle i feddwl yn arloesol, gan adlewyrchu'r ffordd rydym yn byw ein bywydau a'r hyn a ddisgwyliwn gan ein gwasanaethau cyhoeddus.

Pŵer i gyhoeddi Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth

Cyhoeddir y cod hwn o dan adran 145 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Mae hefyd yn cynnwys canllawiau o dan adran 169 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf y GIG (Cymru)").

Er mwyn sicrhau bod gan y Cod rym tebyg mewn perthynas ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG o dan Ddeddf y GIG (Cymru) i arfer eu swyddogaethau yn unol â'r gofynion a geir yn y Cod hwn wrth arfer eu priod swyddogaethau.

Pwerau

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gael yn: [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\)](#)

Ac mae Deddf y GIG (Cymru) ar gael yn: [Deddf y GIG \(Cymru\)](#)

Rhaid i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, weithredu yn unol â'r **gofynion** yn y Cod hwn. Nid yw adran 147 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (gwyro oddi wrth ofynion mewn codau) yn berthnasol i unrhyw **ofynion** yn y Cod.

Cyfarwyddir byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ddeddf y GIG (Cymru) i arfer eu swyddogaethau perthnasol yn unol â'r gofynion a geir yn y Cod (sy'n gyfystyr â chanllawiau i gyrff iechyd perthnasol o dan adran 2 o Ddeddf y GIG (Cymru) drwy **Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth 2021**.

Hefyd, rhaid i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau iechyd roi sylw i unrhyw **ganllawiau** a nodir yma ac yn y canllawiau cysylltiedig.

Dylid darllen y Cod hwn ar y cyd â'r Codau Ymarfer a'r canllawiau statudol perthnasol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 ynglŷn â swyddogaethau awdurdodau lleol i ystyried anghenion pobl am ofal a chymorth. Y rhain yw:

- [Cod Ymarfer Rhan 2 \(Swyddogaethau Cyffredinol\)](#)
- [Cod Ymarfer Rhan 3 \(Asesu Anghenion Unigolion\)](#)
- [Cod Ymarfer Rhan 4 \(Diwallu Anghenion\)](#)
- [Canllawiau Statudol Rhan 9 \(Trefniadau Partneriaeth\)](#)
- [Canllawiau Rhan 11 \(Amrywiol a Chyffredinol\)](#)

Deall y dyletswyddau yn y Cod

Caiff y Cod hwn ei wneud o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac mae'n cynnwys canllawiau o dan Ddeddf y GIG (Cymru) ond mae cyrff perthnasol y GIG wedi cael cyfarwyddyd i arfer eu swyddogaethau perthnasol yn unol â'r canllawiau. Er eglurder, mae'r dyletswyddau a weir o dan ddeddfwriaeth wahanol ac â grymoedd gwahanol wedi'u nodi mewn blychau lliw fel a ganlyn:

Gofynion ar awdurdodau lleol o dan adran 145 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Rhaid i Awdurdodau Lleol/Rhaid i Awdurdodau Lleol beidio â ☒

Gofynion ar fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau iechyd o dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006

Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG/Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG beidio â ☒

Canllawiau ar gyfer byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG o dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 ac ar gyfer awdurdodau lleol o dan adran 145 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant


Rhaid i/Dylai/Ni ddylai Awdurdodau Lleol gyda Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG ☒

Gofynion ar fyrddau iechyd, ac awdurdodau lleol ar y cyd mewn canllawiau a gyhoeddir o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, adran 169

Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol gydag Awdurdodau Lleol ar y cyd/Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol gydag Awdurdodau Lleol ar y cyd beidio â ☒

Cydymffurfio â'r Cod

Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i arfer eu swyddogaethau perthnasol ac i gymryd unrhyw gamau sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru er mwyn sicrhau bod y swyddogaethau'n cael eu harfer yn unol â'r gofynion perthnasol yn y Cod hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am adroddiad blynyddol ar gyflawni'r cynllun ardal rhanbarthol gan gynnwys cydymffurfiaeth â'r gofynion yn y Cod hwn.



Adran 1

Trefniadau Asesu
a Diagnosis ar gyfer
Awtistiaeth



Mae'r adran hon yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer:

- galluogi pobl a allai fod yn awtistig i gael gafael ar wasanaethau asesu a diagnosis
- sefydlu llwybrau atgyfeirio a llwybrau asesu
- cael gafael ar wasanaethau amlddisgyblaethol/asiantaeth, sydd wedi'u hyfforddi yn y technegau diagnostig i adnabod awtistiaeth
- sicrhau cymorth i bobl sy'n cael atgyfeiriad i gael asesiad diagnostig a'u teuluoedd a/neu eu gofalwyr yn ystod y broses hon.

1. Adnabod

Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol o batrwm o wahaniaethau gydol oes mewn sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol cilyddol, ynghyd ag ymddygiad cyfyngedig ac ailadroddus anarferol a allai awgrymu bod angen ymchwilio ymhellach. Dylent hefyd allu adnabod y pethau hyn.

Dylid rhoi gwybodaeth ac esboniadau clir i'r teulu/gofalwr, y person ifanc neu'r oedolyn ynghylch y broses atgyfeirio, asesu a rhoi diagnosis, gan gynnwys cydsyniad, i sicrhau bod pawb yn deall y broses. Dylai hyn gynnwys esbonio na fydd diagnosis cadarnhaol o awtistiaeth yn cael ei wneud o reidrwydd. Rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sicrhau:

- i. bod ymarferwyr yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth/gwybodaeth am yr arwyddion a'r symptomau a phresenoldeb nodweddion anarferol a allai fod yn arwydd bod plentyn, person ifanc neu oedolyn yn awtistig o bosibl
- ii. bod ymarferwyr yn cael canllawiau/hyfforddiant ar lwybrau atgyfeirio ar gyfer asesu
- iii. bod ymarferwyr yn cynnig gwybodaeth (mewn fformat ac iaith briodol) i'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn a'r teulu neu'r gofalwr sy'n esbonio'r broses atgyfeirio ac yn esbonio nad yw'n golygu y bydd diagnosis o awtistiaeth yn cael ei roi ym mhob achos.

2. Atgyfeirio i wasanaethau asesu awtistiaeth

Rhaid i broses asesu awtistiaeth gael ei chyfleu'n glir er mwyn i bawb allu deall sut i gael gafael ar asesiad, sut bydd yn cael ei gynnal, pwys fydd yn cymryd rhan a beth mae'n ei olygu iddynt. Weithiau, oherwydd eu hanghenion penodol, bydd angen cymorth ychwanegol ar bobl er mwyn sicrhau eu bod yn deall beth sydd ar gael iddynt a sut i gael cymorth:

- i. rhaid cael llwybrau atgyfeirio ar gyfer awtistiaeth y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac y mae'n rhaid eu dilyn
- ii. rhaid i'r llwybrau atgyfeirio ar gyfer awtistiaeth fod ar gael yn hawdd a hwylus i bawb, gan gynnwys teulu neu ofalwyr, plant, pobl ifanc ac oedolion, a rhaid iddynt gynnig gwybodaeth am hunanatgyfeirio
- iii. rhaid i atgyfeiriadau awtistiaeth roi manylion arwyddion a symptomau, pa mor dreiddiol ydynt, eu heffaith ar weithrediad yr unigolyn a'r ffactorau risg
- iv. rhaid i ymarferwyr wrando ar safbwyntiau plant, pobl ifanc, oedolion, teuluoedd a/neu ofalwyr ac ystyried y safbwyntiau hynny
- v. rhaid gwneud atgyfeiriadau yn brydlon o fewn amserlenni cenedlaethol y cytunwyd arnynt
- vi. rhaid cynnig cymorth i bobl ar lwybrau atgyfeirio ar gyfer awtistiaeth pan fyddant yn disgwyl am asesiad – gan gynnwys darparu gwybodaeth glir am y broses ddiagnostig a'r cyflwr awtistig, a hynny mewn iaith glir gan ystyried iaith gyntaf yr unigolyn, ei ethnigrwydd ac unrhyw wahaniaethau diwylliannol

- vii. pan na chaiff atgyfeiriadau i'r timau diagnostig eu derbyn, rhaid i'r sawl sy'n atgyfeirio gael rhesymau am hyn, ynghyd â chynghor am ba wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen i fwrw ymlaen â'r atgyfeiriad. Os yw gwasanaethau eraill yn fwy addas, dylid darparu manylion y gwasanaethau hynny a sut i'w cyrchu
- viii. ni ddylid gwrthod mynediad at asesiad awtistiaeth oherwydd cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd
- ix. bydd perfformiad yn cael ei fonitro, a rhaid i hyn ymwneud ag effaith ac ansawdd y gwasanaethau a gafwyd yn ogystal â thargedau amseroedd aros penodol.

3. Llwybrau asesu a diagnostig ar gyfer awtistiaeth

Rhaid bod trefniadau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol i gael asesiadau diagnostig ar gyfer awtistiaeth, a hynny i blant ac i oedolion. Rhaid i'r naill wasanaeth a'r llall gydweithio a rhaid i'r llwybrau asesu fod yn gyson â'i gilydd. Bydd hyn yn hollbwysig er mwyn pontio rhwng gwasanaethau:

- i. rhaid bod llwybrau asesu y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer awtistiaeth, gan gynnwys hunanatgyfeirio, a rhaid i'r rheini ystyried canllawiau arfer gorau
- ii. rhaid i'r llwybrau asesu ar gyfer awtistiaeth fod yn gyfannol a chynnwys cyfle i gael asesiad ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol sy'n cyd-ddigwydd
- iii. rhaid i'r asesiad awtistiaeth ar gyfer plant ac oedolion ddarparu gwybodaeth glinigol glir a all lywio gwasanaethau am oes
- iv. rhaid i'r holl ymarferwyr sy'n ymwneud â gwasanaethau asesu a gwasanaethau diagnostig fod yn ymwybodol o'r llwybrau ar gyfer asesu a rhoi diagnosis ar gyfer awtistiaeth
- v. rhaid i'r llwybrau gael eu cyhoeddi'n electronig, eu diweddarau'n rheolaidd a bod ar gael yn rhwydd i bawb.

Mynediad at asesiad a diagnosis mewn sefydliadau diogel

Rhaid i unigolion sy'n cael eu cadw mewn ysbytai diogel, carchardai, canolfannau cadw ieuenctid neu sefydliadau cyfatebol sydd angen mynediad at asesiad awtistiaeth gael:

- i. mynediad at wasanaethau diagnostig a chymorth ôl-ddiagnosis yn unol â gofynion y Cod hwn a'r canllawiau statudol perthnasol
- ii. mynediad at ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol sydd â'r lefel gywir o sgiliau a gwybodaeth i sylweddoli pryd y dylid cyfeirio unigolyn at wasanaethau arbenigol ar gyfer asesiad awtistiaeth.

4. Gwasanaethau asesu a diagnostig ar gyfer awtistiaeth

Rhaid i blant, pobl ifanc ac oedolion gael asesiad a diagnosis gan dimau amlddisgyblaethol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Er mwyn hyrwyddo mynediad, rhaid i fyrddau iechyd lleol gydag awdurdodau lleol sicrhau:

- i. y bydd gan llwybrau un pwynt mynediad er mwyn cael asesiad a diagnosis o awtistiaeth
- ii. bod gwasanaethau amlddisgyblaethol/asiantaeth yn cael eu datblygu er mwyn rhoi asesiad a diagnosis o awtistiaeth ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion
- iii. bod y gwasanaethau hyn yn darparu asesiad cyfannol neu atgyfeiriad ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol eraill os ydynt yn bodoli.

5. Y broses asesu a diagnostig ar gyfer awtistiaeth

Rhaid i wasanaethau sy'n cynnig asesiadau awtistiaeth i blant, pobl ifanc ac oedolion:

- i.** cychwyn yr asesiad yn unol ag unrhyw safonau amseroedd aros y cytunwyd arnynt yn genedlaethol
- ii.** sicrhau bod yr holl wybodaeth, sydd ar gael, yn barod i'w ystyried yn ystod y broses asesu er mwyn rhoi darlun cyfannol o'r unigolyn
- iii.** sicrhau bod yr asesiad yn digwydd mewn amgylchedd sy'n diwallu anghenion yr unigolyn
- iv.** sicrhau bod ymarferwyr yn gwrando ar safbwyntiau'r plant, person ifanc, oedolyn, teuluoedd a/neu ofalwyr, ac yn eu hystyried
- v.** sicrhau nad yw'r broses o gasglu gwybodaeth ychwanegol yn amharu ar hynt y broses asesu awtistiaeth
- vi.** nodi pwynt cyswllt penodol i ateb cwestiynau gan yr unigolyn awtistig, aelodau'r teulu neu'r gofalwr
- vii.** sicrhau bod canlyniadau'r asesiad yn cael eu rhoi mewn modd sy'n briodol i'r unigolyn a'r teulu neu'r gofalwr (lle bo'n briodol) gan ymarferydd a fu ynghlwm wrth y broses asesu a diagnosis. Bydd y broses hon yn berthnasol lle na wneir diagnosis o awtistiaeth hefyd
- viii.** sicrhau bod canlyniad yr asesiad, boed diagnosis yn cael ei wneud ai peidio, yn cael ei gofnodi yn y cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol
- ix.** sicrhau, er mwyn cefnogi dull parhaus o weithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, bod proffil o gryfderau, anawsterau ac anghenion yr unigolion yn cael ei gofnodi a'i fod ar gael fel bo'r angen
- x.** sicrhau, os oes gan bobl awtistig gyflwr iechyd meddwl a/neu anabledau dysgu sy'n cyd-ddigwydd, bod llwybrau ar waith i alluogi mynediad at wasanaethau, a allai ddiwallu eu hanghenion cymorth ychwanegol
- xi.** sicrhau bod y teulu neu'r gofalwyr (lle bo'n briodol) yn cael cynnig atgyfeiriad am asesiad o anghenion ar gyfer gwasanaethau cymorth.

6. Cymorth yn dilyn canlyniad asesiad awtistiaeth

- a) Yn achos plant, pobl ifanc ac oedolion sydd **wedi** cael diagnosis o awtistiaeth, rhaid cynnig apwyntiad dilynol gydag aelod priodol o'r gwasanaeth o fewn **6 wythnos**. Dylid ystyried y canlynol ar ôl diagnosis:
- i. ymyriadau penodol sy'n gymesur i'r angen a nodwyd, yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cyflawni canlyniadau penodol o fewn amserlen benodol ac nad ydynt yn cael eu hysgogi gan y diagnosis yn unig
 - ii. darparu gwybodaeth a chanllawiau ar nodweddion craidd y diagnosis. Caiff hyn gynnwys gwybodaeth ysgrifenedig, sesiynau un i un neu weithdai
 - iii. rhaid darparu gwybodaeth am sut i ofyn am ail farn os gofynnir amdani
 - iv. cynnig manylion cymorth perthnasol a gwybodaeth bellach i bobl awtistig a'u teulu neu ofalwyr
 - v. pan fo asesiad yn nodi cymorth ar gyfer sgiliau lleferydd ac iaith neu sgiliau echddygol dylid ystyried cydweithio â gwasanaeth addysg neu wasanaethau ieuchyd arbenigol.
- b) Plant, pobl ifanc ac oedolion **heb** ddiagnosis o awtistiaeth:
- i. pan gynhelir asesiad o awtistiaeth ond na wneir diagnosis, os yw'r asesiad yn nodi bod hynny'n angenrheidiol, gyda chydysyniad yr unigolyn (neu, ar gyfer plant, cydsyniad ei riant neu ofalwr) gwneir atgyfeiriad ar gyfer ymchwiliad pellach
 - ii. pan gynhelir asesiad o awtistiaeth ond na wneir diagnosis, os yw'r asesiad yn nodi bod hynny'n angenrheidiol, gyda chydysyniad yr unigolyn (neu, ar gyfer plant, cydsyniad ei riant neu ofalwr) gwneir atgyfeiriad i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer asesiad o anghenion gofal cymdeithasol
 - iii. rhaid darparu gwybodaeth am geisio ail farn os gofynnir am hynny
 - iv. rhaid cynnig mynegbyst at gymorth perthnasol a gwybodaeth bellach.

Dyletswyddau:

Trefniadau Asesu a Diagnosis ar gyfer Awtistiaeth

Rhaid i Awdurdodau Lleol:


- Sicrhau bod pobl awtistig yn ymwybodol o'r hawl i gael asesiad o anghenion ac asesiad gofalwr ar gyfer gofalwr. Dylai'r broses o sicrhau'r rhain gyd-fynd â'r diagnosis.
- Sicrhau bod gwybodaeth a chyfeiriadau i gael gwasanaethau asesu.

Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG:

- Ddarparu mynediad at wasanaethau sy'n gallu gwneud diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth a chyflyrau cysylltiedig sy'n ystyried canllawiau arfer gorau NICE ar gyfer cyfraniad amlddisgyblaethol.
- Sicrhau bod llwybrau asesu a diagnostig i blant a phobl ifanc ac oedolion yn cael eu darparu, eu cyhoeddi a'u hadolygu'n rheolaidd, gan ystyried canllawiau arferion gorau NICE.
- Sicrhau bod ymarferwyr gofal sylfaenol a gofal eilaidd yn cael eu hysbysu am lwybrau atgyfeirio plant, pobl ifanc ac oedolion i gael asesiad.
- Cydymffurfio â'r safonau amseroedd aros cenedlaethol cyfredol ar gyfer asesu a diagnosis.
- Sicrhau bod y broses o gasglu gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesu plant, pobl ifanc ac oedolion yn cydymffurfio â'r safonau amser aros cenedlaethol presennol ar gyfer asesu a diagnosis.
- Pan wneir diagnosis o awtistiaeth, gwneud atgyfeiriad prydlon at asesiadau cymorth ôl-ddiagnosis, lle bo hynny'n briodol, gyda chaniatâd yr unigolyn (neu, yn achos y rhan fwyaf o blant, cydsyniad y rhiant neu'r gofalwr).
- Pan gynhelir asesiad o awtistiaeth ond na wneir diagnosis, atgyfeirio'r unigolyn gyfer archwiliad pellach, os yw'r asesiad yn dangos bod angen gwneud hynny, gyda chaniatâd yr unigolyn (neu, yn achos plant, cydsyniad y rhiant neu'r gofalwr).
- Pan gynhelir asesiad o awtistiaeth ond na wneir diagnosis, atgyfeirio'r unigolyn at wasanaethau gofal cymdeithasol i gael asesiad o anghenion gofal cymdeithasol, os yw'r asesiad yn dangos bod angen gwneud hynny, gyda chaniatâd yr unigolyn (neu, yn achos y rhan fwyaf o blant, cydsyniad y rhiant neu'r gofalwr).
- Lle mae gan bobl awtistig gyflyrau sy'n cyd-ddigwydd, gan gynnwys iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu, dylai llwybrau fod ar waith i alluogi mynediad at wasanaethau cymorth sy'n gallu diwallu eu hanghenion cymorth ychwanegol mewn perthynas ag awtistiaeth.
- Sicrhau bod gwasanaethau asesu a diagnostig awtistiaeth yn hygyrch i unigolion sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau diogel.

Rhaid i Awdurdodau Lleol gyda Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG:

- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon rhwng gwasanaethau diagnostig awtistiaeth a gwasanaethau gofal cymdeithasol am anghenion plant ac oedolion sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth os nodwyd y gellid bod angen cymorth ychwanegol.
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon rhwng gwasanaethau diagnostig awtistiaeth a gwasanaethau gofal cymdeithasol am blant ac oedolion nad ydynt wedi cael diagnosis o awtistiaeth ond y nodwyd ei bod yn angenrheidiol gwneud atgyfeiriad ar gyfer asesiad pellach.
- Sicrhau bod llwybrau o fewn sefydliadau diogel er mwyn sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion sy'n cael eu cadw yn gallu cael mynediad at wasanaethau asesu a chymorth gofal cymdeithasol.
- Dynodi unigolyn i fod yn bennaf gyfrifol am gynnal, adolygu a hyrwyddo llwybrau diagnostig i blant, pobl ifanc ac oedolion.
- Lle mae gan bobl awtistig iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu sy'n cyd-ddigwydd, dylai llwybrau fod ar waith i alluogi gwasanaethau asesu mynediad, a all ddiwallu eu hanghenion cymorth ychwanegol mewn perthynas ag awtistiaeth.



Adran 2

Trefniadau ar gyfer cael
gafael ar Wasanaethau
lechyd a Gofal Cymdeithasol



Bydd yr adran hon yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer:

- cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- sefydlu llwybrau i gael at wasanaethau iechyd meddwl
- cymorth i'r rhai sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd
- sut mae'n rhaid i wasanaethau ddiwallu anghenion pobl awtistig sy'n defnyddio eu gwasanaethau
- sut mae'n rhaid i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau iechyd ystyried anghenion penodol pobl awtistig wrth gynllunio a darparu cymorth.

Cydnabyddir effaith awtistiaeth fel anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; felly mae hawliau unigolion yn cael eu diogelu gan y gyfraith a chynghorir gwasanaethau i drafod gydag unigolion sut y gallant addasu cymorth a chefnogaeth. Gall gwahanol faterion synhwyrdd, cymdeithasol a gwybyddol fod yn rhwystrau i bobl awtistig, felly mae angen ystyried addasiadau rhesymol a'u rhoi ar waith.

1. Cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Lle y bo'n briodol, rhaid i wasanaethau roi gwybod i unigolion lle i gael gafael ar gymorth a gofal pellach. Rhaid bod pob gwasanaeth, yn enwedig timau cyswllt cyntaf, fel y gwasanaeth Gwybodaeth, Cynghori a Chymorth, yn gwybod sut i atgyfeirio pobl awtistig at sefydliadau arbenigol i'w helpu i gael cymorth. Rhaid i'r wybodaeth fod yn addas i'r gynulleidfa dan sylw fel bod:

- i. pobl yn deall sut i gael cyngor a chymorth
- ii. gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill
- iii. pobl yn cael eu hatgyfeirio i gael asesiad ar gyfer gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chymorth mewn ffordd gydlynus sy'n seiliedig ar eu hanghenion.

2. Eiriolaeth

Rhaid i'r unigolyn awtistig a'i deulu/gofalwr deimlo eu bod yn bartner cyfartal yn y berthynas ag ymarferwyr. Mae croeso i unrhyw unigolyn awtistig ddethol rhywun o'i ddewis i'w helpu i gyfrannu'n llawn a mynegi ei farn a'i deimladau yn ystod apwyntiadau gydag ymarferwyr:

- i. rhaid i ymarferwyr wneud unigolion yn ymwybodol o wasanaethau eiriolaeth
- ii. gall ffrind, teulu neu rwydwaith cymorth ehangach ddarparu'r cymorth hwn
- iii. rhaid i awdurdodau lleol drefnu i ddarparu eiriolwr proffesiynol annibynnol pan fydd teulu/gofalwr unigolyn awtistig cymwys angen cymorth
- iv. gall gwasanaethau eiriolaeth hefyd gefnogi unigolyn i herio darparwyr gwasanaethau ac awdurdodau lleol wrth fynegi pryder.

3. Gwasanaethau ataliol

Mae'n ofynnol (o dan adran 15 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau ataliol. Rhaid i ymarferwyr sy'n atgyfeirio i wasanaethau ataliol, neu sy'n eu darparu, ddeall awtistiaeth a'i effaith ar fywyd unigolyn. Dylai gwasanaethau ataliol alluogi pobl awtistig yn eu bywydau bob dydd, a dylid cytuno arnynt gyda'r unigolyn i ddiwallu'r anghenion y nodwyd eu bod ganddo. Dylid eu cydgynllunio a'u darparu i atal yr angen am gymorth mwy dwys. Gall y gwasanaethau hyn gynnwys:

Plant

- i. rhoi cyngor i deulu neu ofalwyr
- ii. annog a helpu plant i gymryd rhan mewn grwpiau cymunedol a/neu weithgareddau hamdden lleol
- iii. ymgysylltu ag amrywiaeth o ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Oedolion

- i. annog pobl i gymryd rhan yn y gymuned leol, cymorth gyda bywyd bob dydd a ffyrdd iach o fyw
- ii. helpu i gael mynediad at wasanaethau ataliol prif ffrwd a/neu addasiadau er mwyn diwallu eu hanghenion
- iii. cymorth wrth ymwneud â gwasanaethau tai a chyflogaeth
- iv. ymgysylltu ag amrywiaeth o ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

4. Cymhwystra a chyniferydd deallusrwydd (IQ)

Rhaid i gymhwystra ar gyfer cymorth gofal cymdeithasol fod yn seiliedig ar ddadansoddi pum elfen gydgyssylltiedig er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn ystyried holl amgylchiadau'r person. Rhaid i ymarferwyr sy'n asesu cymhwystra unigolyn awtistig ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol feddu ar ddigon o sgiliau a gwybodaeth i ddeall effaith awtistiaeth ar y gallu i gyflawni'r pum elfen gydgyssylltiedig hyn.

Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol:

- i. asesu ac ystyried amgylchiadau'r person awtistig
- ii. ystyried ei ganlyniadau personol
- iii. asesu ac ystyried unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny
- iv. asesu ac ystyried unrhyw risgiau i'r person awtistig neu bobl eraill os na chyflawnir y canlyniadau hynny
- v. asesu a rhoi sylw i gryfderau a galluoedd yr unigolyn awtistig.

Ni ddylai IQ fod yn ffactor wrth asesu angen unigolyn am ofal a chymorth. Fodd bynnag, gellir cyfeirio at alluoedd deallusol:

- i. wrth gytuno ar y gofal a'r cymorth a gaiff unigolyn
- ii. pan allai unigolyn awtistig elwa ar wasanaethau arbenigol wedi'u teilwra i ddiwallu ei hanghenion.

5. Asesiad ar gyfer gofal a chymorth awdurdod lleol

Mae hawl gan unrhyw unigolyn awtistig neu deulu/gofalwr sydd ag angen gofal a chymorth i gael asesiad ar sail yr angen hwnnw, a dylai'r asesiad a gynhelir fod yn gymesur â'r cais a/neu'r angen a gyflwynir.

- i. rhaid i'r asesiad gychwyn pan fydd person yn defnyddio'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth neu'r pwynt cyswllt cyntaf. Fodd bynnag, nid atgyfeiriad drwy'r gwasanaethau hyn ddylai fod yr unig ffordd o gael asesiad
- ii. rhaid i'r asesiad feithrin dealltwriaeth well o'r person awtistig, nodi'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â'i amgylchiadau penodol, a chreu cynllun ar gyfer sut y bydd yn cyflawni ei ganlyniadau personol
- iii. rhaid i'r asesiad fod rhwng yr ymarferwr, y person awtistig a'i deulu/gofalwr lle bo hynny'n briodol
- iv. rhaid ystyried yr allu i ddeall, iaith gyntaf yr unigolyn, ei ethnigrwydd ac unrhyw wahaniaethau diwylliannol wrth gynnal yr asesiad
- v. caiff asesiadau mwy cynhwysfawr weithiau gynnwys sawl cam neu drafodaeth er mwyn cael dealltwriaeth lwyr o anghenion y person awtistig a'r canlyniadau y mae'n dymuno eu cyflawni. Caiff yr asesiadau hyn hefyd gynnwys ceisio barn ymarferwyr eraill sy'n arbenigo ym maes awtistiaeth
- vi. rhaid i'r angen am asesiad mwy arbenigol beidio ag atal neu ohirio'r broses o ddarparu gwasanaethau priodol
- vii. dylid rhoi gwybod i'r person awtistig a'i deulu/gofalwr am gynnydd yr asesiad a'r amserlenni disgwyliedig ar gyfer cwblhau'r broses asesu
- viii. caiff yr awdurdod lleol gyfuno asesiad o anghenion person awtistig ag asesiad o anghenion ei deulu/gofalwr os byddai'n fuddiol gwneud hynny a bod y person awtistig yn rhoi sêl bendith i hynny
- ix. rhaid i ymarferwyr ymddwyn yn rhagweithiol a dylid gofyn i'r unigolyn awtistig pa iaith neu ddull cyfathrebu fyddai orau ganddo ar ddechrau'r broses
- x. rhaid i ymarferwyr gofnodi unrhyw angen nad yw wedi'i ddiwallu a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol
- xi. os nodir angen cymwys nad yw wedi'i ddiwallu, rhaid i ymarferwyr gydweithio i gynnig darpariaeth wedi'i theilwra.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Ran 4 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r rheoliadau a wneir oddi tani baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person awtistig y mae'n ofynnol iddynt ddiwallu ei anghenion. Rhaid datblygu'r cynlluniau hyn mewn cydweithrediad â'r person awtistig a rhaid iddynt ystyried therapïau pwrpasol lle y bo'n briodol. Rhaid i gynlluniau gofal a chymorth ymdrin â'r canlynol:

- i. y canlyniadau personol a nodwyd mewn perthynas â'r person awtistig dan sylw yn y cynllun
- ii. y camau sydd i'w cymryd gan yr awdurdod lleol ac eraill er mwyn helpu'r person awtistig i gyflawni'r canlyniadau hynny
- iii. yr anghenion a gaiff eu diwallu drwy ddarparu gofal a chymorth
- iv. sut caiff y cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny ei fonitro a'i fesur
- v. dyddiad yr adolygiad nesaf o'r cynllun gofal a chymorth

- vi. os bydd amgylchiadau person awtistig yn newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun, rhaid adolygu a diwygio'r cynllun yng ngoleuni'r amgylchiadau newydd
- vii. ni cheir byth gau cynllun heb adolygiad.

Amgylchiadau lle ceir diwallu anghenion asesedig cymwys drwy daliadau uniongyrchol:

- i. rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth a chymorth priodol a hygyrch er mwyn helpu pobl awtistig, neu eu cynrychiolwyr, i benderfynu a ydynt am dderbyn taliadau uniongyrchol
- ii. rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu eu cynllun taliadau uniongyrchol er mwyn bod yn ymatebol i atebion a chanlyniadau i bobl awtistig
- iii. rhaid i awdurdodau lleol fod yn arloesol ac yn greadigol wrth weithio mewn partneriaeth â'r rhai sy'n derbyn taliadau uniongyrchol neu eu cynrychiolwyr er mwyn ymchwilio i ffyrdd o ddefnyddio taliad uniongyrchol i sicrhau'r canlyniadau personol
- iv. ni cheir gwrthod taliad uniongyrchol i unigolion awtistig dim ond oherwydd na allant reoli'r taliad, neu os ydynt yn bryderus am reoli taliad
- v. rhaid i awdurdodau lleol, mewn partneriaeth â'r person awtistig, ymchwilio i bob opsiwn ar gyfer cynorthwyo'r unigolyn i reoli taliad uniongyrchol
- vi. lle nodir meysydd anhawster, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod y lefel gywir o gymorth ar gael i oresgyn rhwystrau o'r fath
- vii. rhaid i awdurdodau lleol adolygu'r trefniadau ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol a sut maent yn cael eu defnyddio'n rheolaidd.

6. Pontio

Rhaid cynllunio prosesau pontio'n ofalus ymlaen llaw i'w gwneud mor rhwydd a didrafferth â phosibl. Mae pob cyfnod pontio yn golygu newid sylweddol yn amgylchiadau'r unigolyn awtistig ac yn creu hawl i gael ailasesiad o anghenion.

- i. mae angen i ymarferwyr sy'n gysylltiedig â gofal a chymorth i unigolion awtistig eu paratoi ar gyfer newidiadau cynnil wrth bontio a allai effeithio ar eu bywyd bob dydd
- ii. rhaid i awdurdod lleol adolygu asesiad lle mae newidiadau mewn amgylchiadau yn golygu bod angen ailystyried pum elfen allweddol asesiad
- iii. gall unigolion awtistig eu hunain ofyn am adolygiad ac ailasesiad hefyd, pan fydd canlyniadau personol wedi newid
- iv. rhaid i blant ac oedolion ifanc awtistig sy'n profi cyfnodau pontio mewn bywyd gael mynediad at gymorth cymdeithasol ac emosiynol lleol drwy'r dulliau neu'r gwasanaeth priodol drwy gydol y cyfnod hwn
- v. dylid rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar i sicrhau bod plant awtistig yn cael eu grymuso i ddatblygu'n oedolion yn y ffordd y maent yn dymuno
- vi. o ran arweiniad ynghylch plant a phobl ifanc sy'n mynd trwy gyfnodau pontio yn ystod eu haddysg, yn enwedig wrth adael ysgol i fynd ymlaen i addysg bellach neu wasanaethau eraill, bydd y ddarpariaeth yn Neddff Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cael blaenoriaeth pan ddaw i rym yn llawn.

7. Asesiadau Gofalwyr

Mae'n hanfodol bod aseswyr gofal cymdeithasol yn deall anghenion pobl awtistig, fel eu bod yn gallu darparu'r cyngor a'r cymorth mwyaf priodol i rieni a gofalwyr. Rhaid i'r asesiadau gofalwyr ddod i gasgliad gydag un o'r canlyniadau canlynol:

- i. nid oes anghenion i'w diwallu
- ii. mae angen asesiad mwy cynhwysfawr, a all gynnwys asesiadau mwy arbenigol
- iii. gellir diwallu'r anghenion drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth
- iv. gellir diwallu'r anghenion drwy ddarparu gwasanaethau ataliol
- v. gellir diwallu'r anghenion, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan yr unigolyn ei hun (gyda neu heb gymorth eraill)
- vi. gall materion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau personol, neu ddiwallu'r anghenion mewn rhyw ffordd arall
- vii. dim ond drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth, y gellir diwallu'r anghenion.

8. Cael gafael ar ofal iechyd

Mae gan bobl awtistig hawl gyfartal i iechyd o'r safon uchaf posibl ac i gyfleusterau trin salwch a chyfleusterau adfer. Rhaid i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau iechyd ymroi i sicrhau na chaiff yr un unigolyn awtistig ei amddifadu o'i hawl i gael gwasanaethau gofal iechyd o'r fath. Gall gwahaniaethau gwybyddol a chyfathrebu gymhlethu'r broses o nodi a rheoli salwch nad yw'n gysylltiedig ag awtistiaeth. Rôl yr ymarferydd yw atal a thrin, wrth ddarparu cymorth ac addasiadau rhesymol i ddiwallu anghenion unigolyn awtistig. Bydd y pasbort iechyd, o'i weithredu'n ehangach, yn helpu gwasanaethau i adnabod anghenion unigol a gweithredu arnynt.

Gofal iechyd sylfaenol

Rhaid i fyrddau iechyd lleol sicrhau bod ymarferwyr gofal sylfaenol yn datblygu strategaethau ac yn gwneud addasiadau rhesymol er mwyn cynnal archwiliadau corfforol, profion a thriniaethau llwyddiannus:

- i. dylai'r holl wasanaethau gofal sylfaenol nodi pobl awtistig o fewn eu poblogaeth
- ii. pan fo'n bosibl, dylid neilltuo amser ychwanegol ar gyfer apwyntiadau
- iii. dylid datblygu proffiliau personol i gynorthwyo ymarferwyr unigol i ddarparu gwasanaethau
- iv. pan fo modd, dylid annog cysondeb o ran staff ac arferion gwaith
- v. dylai pob aelod o staff dderbyn hyfforddiant mewn awtistiaeth a materion cysylltiedig ym maes ymddygiad, cyfathrebu a phrosesu synhwyraidd (sy'n briodol i'r cyswllt a gânt â phobl awtistig).

Gofal iechyd eilaidd a thrydyddol

Rhaid i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau iechyd sicrhau bod pob ysbyty, waeth beth yw'r ddarpariaeth glinigol, yn datblygu strategaethau a gwneud addasiadau rhesymol sy'n anelu at gyflawni archwiliadau corfforol, profion a thriniaethau llwyddiannus.

- i. rhaid i asesiadau derbyn gynnwys gofynion penodol i gynorthwyo i ddarparu gofal diogel tra bo'r person awtistig yn yr ysbyty
- ii. dylid ystyried darpariaethau diogelu a'u mabwysiadu os oes angen
- iii. pan fo modd, ac os yw'r sefyllfa'n gofyn am hynny, os oes gan y person awtistig ddigon o ddealltwriaeth/galluedd a'i fod wedi cydsynio, dylid ystyried gwneud darpariaeth er mwyn i aelodau'r teulu neu ofalwr aros gyda'r person awtistig
- iv. mae angen i rai sy'n ateb galwadau ffôn/staff derbynfa gael hyfforddiant penodol i ymdrin â galwadau/ymholiadau gan bobl awtistig
- v. dylai staff dderbyn hyfforddiant mewn awtistiaeth a materion cysylltiedig ym maes ymddygiad, cyfathrebu a phrosesu synhwyraidd (sy'n briodol i'r cyswllt a gânt â phobl awtistig).

9. Cymorth mewn Sefydliadau Diogel

Dylai byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, wrth gydweithio â charchardai a llety cadw ieuencid, geisio:

- i. datblygu strategaethau a gwneud addasiadau rhesymol er mwyn cadw pobl awtistig yn ddiogel
- ii. sicrhau bod pob aelod staff yn derbyn hyfforddiant mewn awtistiaeth a phroblemau ymddygiad, cyfathrebu a phrosesu synhwyraidd cysylltiedig (sy'n briodol i'w rhyngweithio).

10. Gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig

Os oes angen, bydd plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig yn cael mynediad llawn at wasanaethau iechyd meddwl amlddisgyblaeth, waeth beth yw eu gallu deallusol neu unrhyw ddiagnosis sy'n cyd-ddigwydd.

- i. bydd gwasanaethau yn darparu ar gyfer eu hanghenion iechyd meddwl (naill ai ar lefel gofal sylfaenol mewn gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol) neu mewn gwasanaethau arbenigol i'r rhai â salwch meddwl mwy difrifol waeth beth fo'u diagnosis awtistiaeth
- ii. rhaid gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl awtistig pan fyddant yn derbyn gwasanaethau iechyd meddwl
- iii. dylid cynnwys ymarferwr sydd â phrofiad perthnasol o awtistiaeth lle bo hynny'n ymarferol. Os nad yw hyn yn bosibl, dylai'r gwasanaethau ofyn am gymorth arbenigwyr sydd â'r arbenigedd priodol, ond ni ddylai hyn oedi unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol ar unwaith
- iv. rhaid cymryd camau i sicrhau y gall pobl awtistig sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd gael gafael ar gyngor a gwybodaeth, gan gynnwys mynediad at gymorth ychwanegol megis eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol (IMHA) neu, os yw'n berthnasol, aseswyr galluedd meddyliol annibynnol (IMCA)
- v. rhaid darparu hyfforddiant penodol neu ychwanegol i staff sy'n debygol o weithio gyda phobl awtistig a chyflyrau cysylltiedig sy'n cyd-ddigwydd.

11. Gwasanaethau i bobl awtistig sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd

Rhaid i blant awtistig, pobl ifanc ac oedolion â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd allu cael gafael ar wasanaethau cymorth o pa bynnag dîm sy'n diwallu anghenion yr unigolyn orau. Dyle'r wybodaeth berthnasol gael eu rhannu rhwng gwasanaethau i osgoi dyblygi asesiadau/casglu gwybodaeth.

Plant

- i. rhaid i sefydliadau addysgol prif ffrwd gael gwasanaethau cymorth yn unol â deddfwriaeth addysg gyffredinol bresennol
- ii. rhaid i blant sydd ag anghenion iechyd a/neu ofal cymdeithasol cymwys dderbyn cymorth cydweithredol gan yr holl wasanaethau priodol.

Oedolion

- i. rhaid i oedolion sydd ag anghenion iechyd a/neu ofal cymdeithasol cymwys dderbyn cymorth cydweithredol gan yr holl wasanaethau priodol
- ii. rhaid i oedolion sydd am fyw'n annibynnol gael cymorth ac ymyriadau priodol i gynnal amgylchedd diogel
- iii. rhaid i oedolion ag awtistiaeth sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd o bosibl, ac sydd angen gofal seibiant, gael cynnig lleoliadau mewn gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion unigol.

Dyletswyddau:

Trefniadau ar gyfer cael gafael ar Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Rhaid i Awdurdodau Lleol:

- Sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth lleol ar gael fel rhan o'u gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.
- Sicrhau nad yw IQ yn cael ei ystyried fel rhan o'r meini prawf cymhwysra ar gyfer asesiad o anghenion o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Sicrhau bod gan ymarferwyr sy'n asesu cymhwysra unigolyn awtistig ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol ddigon o wybodaeth a sgiliau i ddeall effaith awtistiaeth ar allu'r unigolyn i gyflawni'r pum elfen Llesiant heb ofal a chymorth.

Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG:

- Wneud trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn ymwybodol o'r gwasanaethau awtistiaeth sydd ar gael yn eu hardaloedd lleol a bod ganddynt lwybrau atgyfeirio clir.
- Sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant priodol mewn awtistiaeth ac anghenion ymddygiad a synhwyrdd cysylltiedig ar lefel sy'n briodol i'w cyfraniad nhw.
- Sicrhau nad yw pobl â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd yn cael eu heithrio o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant neu Oedolion. Rhaid i ystyriaeth o ddangosyddion craidd cyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth a'u dylanwad ar yr unigolion lywio'r gofal a'r cymorth a gynigir a'i ganlyniadau.
- Sicrhau nad yw IQ yn cael ei ystyried fel rhan o'r meini prawf cymhwysra.

Rhaid i Awdurdodau Lleol gyda Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG:

- Sicrhau bod pobl awtistig yn ymwybodol o'r hawl i gael asesiad o anghenion. Dylid cynnig yr asesiad yn y cam diagnosis.
- Sicrhau nad yw aros am ddiagnosis yn rheswm dros wrthod cymorth a gwasanaethau eraill.
- Sicrhau bod gofalmwyr pobl awtistig yn ymwybodol o'r hawl i gael asesiad o anghenion. Dylai'r broses o gael asesiad gyd-fynd â'r broses ddiagnosis, a chael ei gynnig yn ystod y cam diagnosis a gwneud atgyfeiriad os oes angen.
- Annog arloesi wrth ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth.
- Sicrhau bod addasiadau rhesymol ar waith ar gyfer pobl awtistig er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau fel pawb arall.
- Sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn cael eu darparu lle nodwyd bod eu hangen.
- Sicrhau bod cymorth iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl awtistig mewn sefydliadau diogel yn cael ei ddarparu gan ymarferwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.

Adran 3

Trefniadau ar gyfer
Codi Ymwybyddiaeth o
Awtistiaeth a Darparu
Hyfforddiant



Mae'r adran hon yn disgrifio'r trefniadau:

- i fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau iechyd ac awdurdodau lleol hyrwyddo cynnwys pobl awtistig mewn gwasanaethau prif ffrwd, drwy sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r gymuned ehangach er mwyn hybu dealltwriaeth o awtistiaeth a sut gall bod yn awtistig gael effaith wahanol ar bob unigolyn
- ar gyfer sicrhau bod gan staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau arbenigol a phrif ffrwd fynediad at y lefel briodol o ddealltwriaeth, gwybodaeth a sgiliau yn ymwneud ag awtistiaeth er mwyn rhoi gwasanaethau a chymorth effeithiol i bobl awtistig, eu teuluoedd a/neu eu gofalwyr.

1. Hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Mae'r Model hwn yn nodi bod gwahaniaeth pwysig rhwng '*nam*' ac '*anabledd*'. Mae'n cydnabod bod pobl â namau yn cael eu hanalluogi gan rwystrau sy'n bodoli'n gyffredin mewn cymdeithas. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys agweddau negyddol, a rhwystrau ffisegol a sefydliadol, a all atal pobl anabl rhag cael eu cynnwys a chael cyfranogi ym mhob agwedd ar fywyd.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaethau a'r rhai sy'n darparu nwyddau a chyfleusterau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl awtistig fel nad ydynt o dan anfantais o gymharu â phobl heb awtistiaeth. Mae'n ofynnol i ddarparwyr wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl awtistig fesul achosion unigol. Mae dyletswydd hefyd i rag-gynllunio:

- i. mae angen i ddarparwyr ystyried pa fath o addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud a sut cânt eu darparu cyn bod eu hangen, ac mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn lleoliad iechyd lle mae angen cyflwyno addasiadau'n gyflym ac yn unol ag angen unigol penodol o bosibl
- ii. rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol (gan gynnwys darparwyr gwasanaethau a gomisiynir) sicrhau bod hyfforddiant awtistiaeth yn cynnwys y sgiliau i roi addasiadau rhesymol ar waith.

Mae cyfathrebu da rhwng darparwyr gwasanaethau, pobl awtistig a'u teuluoedd a/neu eu gofalwyr (os yw'n briodol), yn hanfodol.

- i. rhaid i driniaeth, gofal a chymorth, a'r wybodaeth a roddir amdanynt, fod yn briodol i oedran ac i iaith a diwylliant yr unigolyn
- ii. rhaid i wybodaeth fod ar gael i bobl awtistig sydd ag anghenion ychwanegol fel anableddau corfforol, synhwyrdd neu ddysgu, ac i bobl nad ydynt yn deall neu'n Cymraeg/Saesneg yn llawn
- iii. rhaid i bobl awtistig, eu teuluoedd a/neu eu gofalwyr (os yw'n briodol) gael mynediad at gyfieithydd (wedi'i hyfforddi'n briodol) neu eiriolwr cyfathrebu os oes angen.

2. Codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gymuned

Gan gydnabod y Model Cymdeithasol o anabledd, i greu cymdeithas gynhwysol ar gyfer pobl awtistig mae angen dealltwriaeth o awtistiaeth ledled y gymuned. Dylai awdurdodau lleol fel darparwyr/ comisiynwyr cyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd, ynghyd â darparwyr iechyd a'r trydydd sector, addasu eu gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl awtistig, gan gael gwared ar yr hyn sy'n rhwystro cynhwysiant. Gellir cyflawni hyn drwy:

- i. helpu pobl awtistig a'u teuluoedd neu ofalwyr i gael cyfleoedd i fod yn rhan o weithgareddau cymunedol a rhannu profiadau

- ii. darparu gwybodaeth ymwybyddiaeth gyffredinol o effaith awtistiaeth
- iii. rhoi gwybodaeth i bobl awtistig a'u teulu neu ofalwyr am eu hawliau
- iv. darparu gwybodaeth am gyfleoedd lleol wedi'u teilwra ar gyfer pobl awtistig
- v. darparu gwybodaeth am hyfforddiant lleol sydd ar gael a all gefnogi pobl awtistig a'u teulu neu ofalwyr
- vi. darparu gwybodaeth er mwyn helpi i baratoi at y dyfodol
- vii. darparu manylion cyswllt y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA).

3. Dysgu a datblygu'r gweithlu

Gall pob unigolyn sy'n gweithio i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG yn enwedig rhai mewn swyddi ar gyfer y cyhoedd, wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ganlyniadau iechyd a llesiant pobl awtistig. Mae'n hollbwysig bod pawb yn deall sut y gallant addasu eu rolau a'u harferion i wella gwasanaethau a chymorth i bobl awtistig. Mae angen i hyn gychwyn gyda chydabyddiaeth o werth gwybodaeth a hyfforddiant er mwyn codi ymwybyddiaeth, newid agweddau a chredoau am awtistiaeth a gwella arferion.

Rhaid i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG sicrhau bod pawb sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn cael hyfforddiant codi ymwybyddiaeth penodol ar awtistiaeth. Ar gyfer unigolion sydd angen yr hyfforddiant hwn i gyflawni cyfrifoldebau eu rôl a'r rhai sydd am ddatblygu eu gwybodaeth am awtistiaeth, dylai bod mynediad at lefelau gwahanol o ddysgu a datblygu arbenigol.

Dylai byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau lleol, fel rhan o'u gwaith cynllunio gweithlu, gynnal asesiad o anghenion dysgu a datblygu awtistiaeth **ar gyfer eu holl staff** (gan gynnwys gwirfoddolwyr) a gwneud trefniadau i sicrhau bod cyfleoedd dysgu a datblygu addas yn cael eu darparu'n rheolaidd. Rhaid bod y cyfleoedd dysgu a datblygu:

- i. yn seiliedig ar dystiolaeth ac o ansawdd uchel
- ii. (lle bo angen), yn gallu bodloni safonau proffesiynol
- iii. yn rhan o'r broses ymsefydlu ac yn rhan o ddatblygiad gweithlu parhaus ar gyfer gloywi sgiliau a gwybodaeth
- iv. yn cael eu hailadrodd bob dwy flynedd neu i adlewyrchu newid mewn rôl
- v. yn briodol i rôl y staff a lefel yr ymwneud â phobl awtistig
- vi. yn cyd-fynd â gofynion rheoleiddio ac arolygu iechyd a gofal cymdeithasol.

Dylai pob unigolyn **sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda** phobl awtistig fod â lefel briodol o wybodaeth a sgiliau i'w galluogi i ymateb yn briodol i anghenion person awtistig fel y gallant gyflawni eu rolau'n effeithiol. Hefyd, rhaid i bobl awtistig fod yn ffyddiog y byddant yn derbyn cyngor, gofal a chymorth o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

- i. rhaid rhoi blaenoriaeth i bob unigolyn sydd â rôl wrth ddarparu gofal, bydd angen lefelau gwahanol o hyfforddiant ar bob ymarferwr, sy'n bodloni gofynion ei rôl
- ii. rhaid i ddysgu a datblygu geisio datblygu sgiliau ymarferol y gweithlu a sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i wella'r ffordd y caiff pobl awtistig, o bob oed, eu cefnogi

- iii. rhaid i'r ddysgu a datblygu ddarparu dealltwriaeth o sut mae awtistiaeth yn effeithio ar bob unigolyn yn wahanol
- iv. dylid cofnodi'r dysgu a datblygu a wnaed a'r safonau a gyrhaeddwyd er mwyn pontio'n rhwydd o sefydliad i sefydliad.

Dylai pob ymarferwr sy'n **gweithio gyda phobl awtistig, yn eu hasesu, yn gofalu amdanynt ac yn eu trin** gael hyfforddiant a medrau digonol a phriodol i gyflawni'r camau a'r ymyriadau a nodir gan eu hymarfer. Bydd hyn yn cynnwys:

- i. clinigwyr – seiciatryddion, paediatregwyr, seicolegwyr (clinigol ac addysgol)
- ii. gweithwyr proffesiynol meddygol, nyrsio a pherthynol i iechyd
- iii. y trydydd sector, pan fydd yn darparu gwasanaethau i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG
- iv. gweithwyr cymdeithasol
- v. therapyddion – galwedigaethol, lleferydd ac iaith, ffisio
- vi. fferyllwyr
- vii. podiatryddion
- viii. deintyddion
- ix. meddygon teulu
- x. y gwasanaethau brys – ambiwlans (gan gynnwys y rhai sy'n ateb galwadau)
- xi. pwynt cyswllt cyntaf.

O ran addysg, dylai'r gweithlu addysgu gyfeirio at y Canllawiau Anghenion Dysgu Arbennig.

4. Gwasanaethau gofal sylfaenol

Mae'n bosibl y bydd pob ymarferwr gofal sylfaenol yn darparu gofal i bobl awtistig. Mae'n bwysig bod byrddau iechyd lleol yn sicrhau:

- i. bod eu staff yn cael cyfleoedd dysgu a datblygu priodol er mwyn diwallu anghenion person awtistig
- ii. bod eu trefniadau contract gyda darparwyr annibynnol, gan gynnwys y trydydd sector, yn cynnwys cyfleoedd dysgu a datblygu digonol i'r darparwyr eu hunain a'r unigolion a gyflogir ganddynt yn eu tro
- iii. bod unigolion yn deall y rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol i hwyluso gofal priodol
- iv. bod rhaid gwneud darpariaeth yn lleol i gynnal rhestr gyfredol o wasanaethau cymorth cymunedol y gall gweithwyr proffesiynol a'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gyfeirio pobl awtistig atynt i gael cymorth pellach.

5. Gwasanaethau iechyd eilaidd a thrydyddol

Rhaid i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau iechyd sicrhau bod gwasanaethau iechyd eilaidd a thrydyddol yn hygyrch i bobl awtistig, ac ni cheir gwrthod gwasanaethau na chymorth iddynt am eu bod yn awtistig. Rhaid gwneud pob ymdrech i gynnig cymorth i bobl awtistig ddeall eu triniaeth tra'u bod yn yr ysbyty. Rhaid i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau iechyd:

- i. sicrhau bod pob ymarferwr unigol (gan gynnwys gwirfoddolwyr) yn cael cyfleoedd dysgu a datblygu ymwybyddiaeth yn unol â'i rôl
- ii. sicrhau bod ymarferwyr unigol (gan gynnwys gwirfoddolwyr) mewn meysydd arbenigol megis iechyd meddwl, gwasanaethau mamolaeth, unedau damweiniau ac achosion brys yn cael cyfleoedd dysgu a datblygu ym maes awtistiaeth
- iii. sicrhau bod personél adran ystadau yn cael dysgu a datblygu i hyrwyddo dealltwriaeth o addasiadau amgylcheddol ar gyfer pobl awtistig
- iv. sicrhau bod ymarferwyr unigol (gan gynnwys gwirfoddolwyr) yn deall y rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu gofal, cymorth a chynghor priodol
- v. sicrhau bod dysgu a datblygu yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael eu diweddarau'n rheolaidd i sicrhau bod ymarfer yn gyfredol
- vi. defnydd o'r Proffil Iechyd Unwaith i Gymru.

6. Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

Bydd ymarferwyr gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol yn aml yn darparu gofal ar gyfer pobl awtistig. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu er mwyn sicrhau bod staff yn gallu diwallu anghenion person awtistig a, lle bo modd, yn gallu cynnig llwybrau clir i gael cynghor ychwanegol a mynegbyst at wasanaethau eraill sy'n gallu rhoi cymorth wedi'i deilwra i bobl awtistig allu cael gafael ar wasanaethau:

- i. rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod ymarferwyr cymunedol yn cael cyfleoedd dysgu a datblygu mewn awtistiaeth ar lefel briodol i'w rôl
- ii. rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod eu trefniadau contract gyda darparwyr annibynnol yn darparu ar gyfer cyfleoedd dysgu a datblygu digonol i'r darparwyr eu hunain a'r unigolion a gyflogir ganddynt yn eu tro
- iii. rhaid i'r dysgu a datblygu fod yn seiliedig ar dystiolaeth a chael ei ddiweddarau'n rheolaidd i sicrhau bod ymarfer yn gyfredol
- iv. rhaid i unigolion ddeall y rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud addasiad rhesymol i hwyluso gofal, cynghor a chymorth priodol
- v. rhaid gwneud darpariaeth yn lleol i gynnal rhestr gyfredol o wasanaethau cymorth cymunedol y gall gweithwyr proffesiynol a'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cynghor a Chymorth gyfeirio pobl awtistig atynt i gael cymorth pellach.

7. Sefydliadau Addysgol

Yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 mae adran 2 yn diffinio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fel a ganlyn:

'Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.'

Mae awtistiaeth yn cael ei ystyried yn gyflwr meddygol, ond efallai y bydd angen i'r rhai sy'n aros am ddiagnosis gael darpariaeth ddysgu ychwanegol o hyd.

Bydd y Cod ADY hefyd yn gosod gofynion ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru, sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, ac ar awdurdodau lleol yng Nghymru, mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY.

Mae rheoliadau a wneir o dan adran 60 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018:

- i. yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sicrhau bod gan Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol gymwysterau penodol neu brofiad penodol (neu'r ddau)
- ii. yn rhoi swyddogaethau i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr sydd (o bosibl) ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dyletswyddau:

Trefniadau ar gyfer Codi Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth a Darparu Hyfforddiant

Rhaid i Awdurdodau Lleol:

- Sicrhau bod gan unrhyw un sy'n asesu anghenion o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y sgiliau, y wybodaeth a'r cymhwysedd i gynnal yr asesiad. Os nad oes gan yr aseswr brofiad o'r cyflwr awtistiaeth, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau yr ymgynghorir ag unigolyn â'r arbenigedd hwnnw.
- Fel rhan o'u dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sicrhau bod y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn darparu gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth lleol.
- Lle comisiynir gwasanaethau, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau awtistiaeth yn cael eu darparu gan staff medrus sydd wedi cael hyfforddiant priodol.

Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Iechyd:

- Sicrhau bod gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol y wybodaeth a'r hyfforddiant mewn awtistiaeth i gyflawni eu rôl, gan ymgysylltu â cyrff cofrestri arbenigwyr proffesiynol lle bo hynny'n berthnasol.
- Sicrhau bod gan unrhyw un sy'n cynnal asesiad o gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth gydag unigolyn y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd sydd eu hangen i asesu a rhoi diagnosis.
- Sicrhau bod ymarferwyr gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd yn ymwybodol o'r gwasanaethau awtistiaeth sydd ar gael yn eu hardaloedd lleol a bod ganddynt lwybrau atgyfeirio clir.

Dylai Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Iechyd:

- Sicrhau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn rhan o'r rhaglenni hyfforddi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyffredinol a gynigir i bob aelod staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.
- Fel rhan o broses cynllunio'r gweithlu, asesu anghenion hyfforddiant awtistiaeth eu holl staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a nodi faint o hyfforddiant sydd ei angen yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau.
- Gwneud trefniadau i sicrhau bod ystod o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd.
- Gwneud trefniadau i sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cael yr hyfforddiant a nodwyd i ddiwallu eu hanghenion gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth.
- Sicrhau bod staff iechyd ac awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a sut i gyfeirio pobl awtistig at y gwasanaeth.
- Lle nodir bod angen hyfforddiant arbenigol, sicrhau bod y ddarpariaeth hyfforddiant yn ystyried canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).
- Sicrhau bod darpariaeth hyfforddiant briodol ar gael yn barhaus, gan gynnwys staff newydd a staff presennol sy'n newid eu rolau gwaith.
- Sicrhau bod pobl awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a darparu hyfforddiant awtistiaeth. Caiff hyn gynnwys ymgynghori ar ddeunyddiau hyfforddi neu gyfrannu at y dasg o gyflwyno hyfforddiant.

Adran 4

Trefniadau ar gyfer Cynllunio
a Monitro Gwasanaethau
ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid



Mae'r adran hon yn disgrifio'r trefniadau:

- i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol gynnal asesiad poblogaeth ar y cyd o anghenion gofal a chymorth
- rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol sicrhau bod awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'u partneriaid bwrdd partneriaeth yn cydweithio'n effeithiol i ymateb i'r asesiadau poblogaeth a gweithredu'r cynlluniau ardal.

1. Asesiadau poblogaeth

Mae Rhannau 2 a 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tani yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol weithio ar y cyd i gynnal asesiad poblogaeth rhanbarthol bob pum mlynedd er mwyn asesu'r anghenion o ran gofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol. Bydd hyn yn cynnwys faint o bobl awtistig sydd yn eu rhanbarth ag angen cyngor, gofal neu gymorth, yn ogystal â faint o ofalwyr pobl awtistig sydd yn eu rhanbarth ag angen cymorth. Rhaid i'r asesiad hwn gael ei gynnal mewn partneriaeth a rhaid iddo nodi:

- i. i ba raddau nad yw anghenion awtistiaeth yn cael eu diwallu
- ii. ystod a lefel y gwasanaethau awtistiaeth sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion a nodwyd
- iii. ystod a lefel y gwasanaethau awtistiaeth sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau ataliol sydd eu hangen
- iv. sut y caiff gwasanaethau awtistiaeth eu darparu gan ystyried y boblogaeth, iaith a diwylliant gan gyfeirio'n benodol at y Gymraeg.

Rhaid i'r asesiad poblogaeth ddangos tystiolaeth o'r canlynol:

- i. bod pobl awtistig, grwpiau a sefydliadau awtistiaeth wedi cyfrannu fel dinasyddion
- ii. awtistiaeth o fewn yr asesiad
- iii. bod adroddiadau asesiadau poblogaeth yn cael eu cyhoeddi unwaith bob cylch etholiadol llywodraeth leol (pum mlynedd).

2. Cynlluniau ardal

Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol sicrhau bod awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'u partneriaid yn y bwrdd partneriaeth yn cydweithio'n effeithiol er mwyn ymateb i'r asesiadau poblogaeth a gweithredu'r cynlluniau ardal a luniwyd ar sail y dystiolaeth a gafwyd o'r asesiad o anghenion y boblogaeth.

- i. rhaid i byrddau partneriaeth rhanbarthol adolygu'r cynlluniau ardal yn flynyddol, gan gynnwys y ddarpariaeth awtistiaeth
- ii. dylai'r adolygiad gynnwys camau gweithredu a chanlyniadau mewn perthynas â darparu gwasanaethau awtistiaeth
- iii. dylai'r adolygiad blynyddol gynnwys adroddiad blynyddol, yn nodi'r cynnydd rhanbarthol o ran cyflawni'r cynllun blynyddol, a rhaid iddo gyd-fynd â strategaeth awtistiaeth Llywodraeth Cymru.

3. Casglu data ar awtistiaeth

Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol oruchwyllo data lleol ar awtistiaeth sy'n llywio'r asesiad o anghenion y boblogaeth ac yn helpu i fonitro'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau ardal blyneddol fel y maent yn berthnasol i anghenion pobl awtistig a'u teuluoedd neu eu gofalwyr. Rhaid i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth yn lleol i gefnogi'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Bydd hyn yn cynnwys cydymffurfio ag unrhyw ofynion sydd gan Lywodraeth Cymru o ran casglu data.

- i. dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol sicrhau cydymffurfir â'r gofynion cenedlaethol ar gasglu data ddata chyflwyno adroddiadau
- ii. rhaid i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol sicrhau cydymffurfir â'r gofynion cenedlaethol ar gasglu data a chyflwyno adroddiadau.

4. Monitro a gwella gwasanaethau ar gyfer awtistiaeth

Rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth am y graddau y mae canlyniadau yn gwella ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl awtistig a'u teuluoedd neu ofalwyr. Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol:

- i. nodi aelod o'r bwrdd i arwain ar fonitro awtistiaeth a gwella gwasanaethau
- ii. trafod gwasanaethau awtistiaeth yn flynyddol o leiaf er mwyn sicrhau bod cynlluniau ardal yn cael eu cyflawni
- iii. bod â grwpiau llywio awtistiaeth strategol; y mae'n rhaid i'w haelodau fod ar lefel digon uchel i lywio datblygiad gwasanaethau
- iv. bod â grwpiau llywio gweithredol sy'n cynnwys ac yn cynrychioli pobl awtistig ac sy'n gallu llywio gwelliannau i wasanaethau, sy'n cyfarfod bob chwarter
- v. sicrhau bod llwybrau awtistiaeth yn cael eu hadolygu a'u harchwilio'n flynyddol a chadarnhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben
- vi. sicrhau bod newidiadau i lwybrau awtistiaeth yn cael eu cyfleu'n brydlon i ymarferwyr
- vii. sicrhau bod gwelliannau i wasanaethau yn cyd-fynd â chynllun gweithredu strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer awtistiaeth.

5. Cyfranogiad rhanddeiliaid awtistiaeth

Mae'n hanfodol bod gwasanaethau awtistiaeth yn cael eu cynllunio, eu darparu a'u monitro mewn cydweithrediad ac wedi'u cydgynhyrchu gyda phobl awtistig, gofalwyr a'u cynrychiolwyr. Dylai hyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael adborth rheolaidd am eu hansawdd a'u heffeithiolrwydd a'u bod yn gallu nodi unrhyw fylchau posibl o ran cymorth sydd angen sylw.

- i. rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sicrhau bod pobl awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr yn cael cyfle i fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a monitro gwasanaethau awtistiaeth
- ii. rhaid cynnwys pobl awtistig a'u teuluoedd a/neu eu gofalwyr fel aelodau o grwpiau awtistiaeth byrddau partneriaeth rhanbarthol.

6. Rôl hyrwyddwr awtistiaeth rhanbarthol.

Mae'n bwysig bod anghenion pobl awtistig a'u teuluoedd neu ofalwyr yn cael eu hadlewyrchu mewn asesiadau poblogaeth, cynlluniau ardal ac wrth ddatblygu gwasanaethau'r dyfodol. Rhaid ategu hyn drwy sefydlu rôl hyrwyddwr awtistiaeth rhanbarthol. Dylai'r hyrwyddwr awtistiaeth wneud y canlynol:

- i. mynychu cyfarfodydd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol ac adrodd ar ddatblygiad gwasanaethau awtistiaeth yn y rhanbarth
- ii. bod â rôl o fewn strwythur llywodraethu'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol i sicrhau bod gwaith craffu effeithiol yn cael ei wneud ar wasanaethau awtistiaeth
- iii. sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at ddatblygu a darparu gwasanaethau
- iv. bod yn rhan o'r adolygiad blynyddol o gynlluniau ardal a rhaid cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn
- v. gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr cyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth yn yr awdurdodau lleol a'r maes iechyd.

Dyletswyddau:

Trefniadau ar gyfer Cynllunio a Monitro Gwasanaethau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol ar y cyd:

- Sicrhau bod hyrwyddwr awtistiaeth yn cael ei benodi ym mhob ardal bwrdd partneriaeth rhanbarthol a'i fod yn rhan o strwythur llywodraethu'r bwrdd.
- Cydymffurfio â'r dyletswyddau perthnasol yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Rhannau 2 a 9, i sicrhau bod anghenion pobl awtistig yn cael eu hystyried wrth ddatblygu asesiadau poblogaeth a chynlluniau ardal.
- Datblygu timau strategol a gweithredol sy'n cynnwys pobl awtistig er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau.

Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Lleol:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion casglu a monitro data Llywodraeth Cymru.

Rhestr o dermau

Term	Ystyr
Addasiadau rhesymol	Gall gwahanol faterion synhwyrdd, cymdeithasol a gwybyddol achosi problemau i bobl awtistig. Rhaid i gyflogwyr/darparwyr gwasanaethau ystyried gwahanol ffyrdd o weithio/cael gafael ar wasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl awtistig yn cael eu cynnwys yn llawn.
Arbenigwr	Gwasanaethau wedi'i ddarparu gan ymarferwr sydd wedi cwblhau addysg a hyfforddiant uwch sy'n sbesifig i awtistiaeth.
Arwyddion a symptomau	Cyfuniad o oedi mewn nodweddion datblygiad disgwyledig a phresenoldeb nodweddion anarferol - eu bwriad yw tynnu sylw gweithwyr proffesiynol at y posibilrwydd o awtistiaeth mewn plentyn, person ifanc neu oedolyn sy'n destun pryder. Ni fwriedir iddynt gael eu defnyddio ar eu pen eu hunain, ond i helpu gweithwyr proffesiynol i adnabod patrwm o heriau mewn sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu cilyddol, ynghyd ag ymddygiad cyfyngedig ac ailadroddus anarferol.
Atgyfeirwyr	Rhywun sydd â'r gallu i atgyfeirio unigolyn i gael asesiad, fel meddygon teulu, paediatregwyr, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys ysgol, athrawon, staff meithrin/cyn ysgol, gweithwyr argyfwng ac, mewn rhai achosion, rhieni/gofalwyr neu hunanatgyfeirio.
Amlasiantaethol	Grŵp o ymarferwyr o fwy nag un asiantaeth, megis iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, yn gweithio gyda'i gilydd.
Amlddisgyblaethol	Amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol sy'n aelodau o ddisgyblaethau gwahanol yn darparu gwasanaethau penodol i unigolyn ar y cyd.
Anhwyllder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD)	Anhwyllder datblygiadol sy'n effeithio ar y ffordd y mae person yn cyfathrebu ac yn ymwneud â phobl eraill a'r byd o'i gwmpas. Mae'r ffordd yr effeithir ar bobl yn amrywio o un unigolyn i'r llall ac yn ôl oedran a gweithrediad deallusol.
Ansawdd ac effaith	Mae'n rhaid i wasanaethau plant ac oedolion ddisgwyl i berfformiad gael ei fonitro. Dylid cofnodi ansawdd ac effaith y gwasanaethau a dderbynnir gan ddefnyddio cyfres o baramedrau a gydnabyddir yn genedlaethol i gofnodi hyn.

Term	Ystyr
Asesu/Asesiad	Cyfarfod neu gyfarfodydd gyda gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol lle maen nhw'n gofyn cwestiynau am iechyd meddwl a chorfforol yr unigolyn, ei gefndir teuluol a'i fywyd bob dydd, i ganfod beth yw'r cyflwr neu'r broblem, pa mor ddifrifol ydyw a pha ofal neu gymorth fyddai'n gweddu orau i'r unigolyn.
Asesiad gofalwr	Mae gofalwr yn cael ei ddiffinio yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel person sy'n darparu neu sy'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl. Mae cael asesiad o anghenion gofalwr yn hawl gyfreithiol. Mae'n berthnasol i bob gofalwr, beth bynnag fo'i oed, sy'n gofalu am rywun sy'n anabl, yn sâl neu'n oedrannus. Gwneir yr asesiad gan gweithiwr o awdurdod lleol y gofalwr. Bydd yr awdurdod lleol yn asesu anghenion y gofalwr i weld pa gymorth neu wasanaethau all fod o gymorth er mwyn galluogi'r gofalwr i gyflawni ei rôl.
Byrddau Iechyd Lleol	Mae Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am gynllunio, ariannu a darparu'r canlynol yn eu hardaloedd: • Gwasanaethau gofal sylfaenol – meddygon teulu, fferyllyfeydd, deintyddion ac optometryddion • Gwasanaethau ysbyty ar gyfer cleifion mewnol a chleifion allanol • Gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys rhai a ddarperir drwy ganolfannau iechyd cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl.
Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	Arweiniodd y rheoliadau a wnaed o dan Ran 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant at sefydlu saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r byrddau hyn yn dwyn ynghyd iechyd, awdurdodau lleol, y trydydd sector, dinasyddion a phartneriaid eraill. Y nod yw ysgogi'r broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn gwella canlyniadau a llesiant pobl a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaethau. Mae cydgynhyrchu yn un o egwyddorion allweddol y Ddeddf ac mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithio gyda phobl i ddatblygu a darparu gwasanaethau integredig.

Term	Ystyr
C anlyniadau personol	Yn achos oedolyn, mae'n golygu'r canlyniadau yr hoffai'r oedolyn eu cyflawni yn ei fywyd o ddydd i ddydd; yn achos plentyn, mae'n golygu: i. y canlyniadau yr hoffai'r plentyn eu cyflawni; neu ii. y canlyniadau yr hoffai unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant eu cyflawni mewn perthynas â'r plentyn.
C ydgynhyrchu	Ffordd o weithio lle mae ymarferwyr a phobl yn gweithio gyda'i gilydd felartneriaid cyfartal i gynllunio a darparu gofal a chymorth.
C ydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol	O dan Reoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020 rhaid i bob ysgol brif ffrwd a gynhelir a phob Sefydliad Addysg Bellach yng Nghymru ddynodi person, neu fwy nag un person, i fod yn gyfrifol am gydlynw darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Gelwir y person hwnnw (neu'r personau) hwnnw'n Gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.
C yflwr ar y Sbectrwm Awtistig (ASC)	Cyflwr datblygiadol sy'n effeithio ar y ffordd y mae person yn cyfathrebu ac yn ymwneud â phobl eraill a'r byd o'i gwmpas. Mae'r modd yr effeithir ar bobl yn amrywio o un unigolyn i'r llall ac yn ôl oedran a gweithrediad deallusol.
C yflyrau sy'n cyd-ddigwydd	Presenoldeb dau gyflwr neu ragor sy'n digwydd naill ai ar yr un pryd, neu'n olynol (un cyflwr yn digwydd yn syth ar ôl y llall).
C ymhwystra	Unigolyn yn cael gwneud neu dderbyn rhywbeth am eu bod yn bodloni amodau penodol.
C ymorth	Mae anghenion cymorth pobl awtistig yn amrywio'n fawr. Bydd oedolion sy'n aros am ddiagnosis o awtistiaeth yn gallu cael cyngor a chefnogaeth gan wasanaethau awtistiaeth oedolion heb fod angen i rywun arall eu hatgyfeirio. Mae Adran 2 y Cod Ymarfer yn rhoi manylion am ofal a chymorth.
C ynlluniau Gofal a Chymorth	Dogfen ysgrifenedig yw'r cynllun gofal a chymorth, sy'n nodi'r hyn a drafodwyd gyda chi yn ystod eich asesiad a'r hyn sy'n mynd i ddigwydd o ganlyniad.

Term	Ystyr
Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol	Mae i “darpariaeth ddysgu ychwanegol” yr ystyr a roddir gan adran 3 o'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, sef: (1) Ystyr “darpariaeth ddysgu ychwanegol” i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran— (a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru, (b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu (c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin. (2) Ystyr “darpariaeth ddysgu ychwanegol” i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath. (3) Yn is-adran (1), ystyr “addysg feithrin” yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.
Darparwr gwasanaethau	Yr awdurdod lleol neu'r corff GIG sy'n gyfrifol am ddarparu gofal a/neu gymorth i unigolyn.
Deddf GIG (Cymru) 2006	Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.
Eiriolaeth	Y broses o gefnogi a galluogi pobl i leisio barn a phryderon.
Gofal iechyd eilaidd	Gofal iechyd a ddarperir gan ysbytai. Profion, diagnosteg a thriniaeth a oruchwylir gan arbenigwr fel arfer.
Gofal iechyd trydyddol	Gofal iechyd arbenigol gan gynnwys Ymddiriedolaethau'r GIG.
Grwpiau ymgysylltu/rhanddeiliad	Ar hyn o bryd mae llawer o grwpiau llwyddiannus eisoes wedi'u sefydlu ond fe'u gelwir yn enwau gwahanol h.y. grwpiau cymorth, grwpiau cymdeithasol, grŵp ymgysylltu, grwpiau cyfoedion. Mae'r rhain mewn sefyllfa ddelfrydol i greu sgysiau ynghylch darparu gwasanaethau (da a lle mae angen gwelliannau) ac anghenion nas diwallwyd. Gall y trefnwyr/hwyluswyr gasglu'r wybodaeth hon a'i hadrodd i aelodau'r grŵp strategol.
Gwasanaethau am oes	Gwasanaethau iechyd a gofal o'r crud i'r bedd.

Term	Ystyr
Gwasanaethau ataliol	Gwasanaethau a all gael eu darparu o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a fydd, er enghraifft, yn bodloni'r dibenion a ganlyn: • Cyfrannu at atal neu ohirio datblygiad anghenion pobl am ofal a chymorth; • Lleihau anghenion gofal a chymorth pobl sydd ag anghenion o'r fath; • Hyrwyddo magwraeth plant gan eu teuluoedd, lle bo hynny'n gyson â llesiant plant; • Lleihau effaith eu hanabledau ar bobl anabl; • Cyfrannu at atal pobl rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.
Gwasanaethau gofal sylfaenol	Mae'r rhain yn cynnwys meddygon teulu ynghyd â fferylliaeth, deintyddiaeth ac optometreg. Maent hefyd yn cydlynu mynediad pobl at ystod eang o wasanaethau yn y gymuned leol er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion iechyd a llesiant. Mae'r gwasanaethau cymunedol hyn yn cynnwys nyrsys cymunedol ac ardal, bydwagedd, ymwelwyr iechyd, timau iechyd meddwl, timau hybu iechyd, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, podiatryddion, gwaedwyr, parafeddygon, gwasanaethau cymdeithasol, staff eraill awdurdodau lleol a'r holl bobl hynny sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli mewn sefydliadau gwirfoddol sy'n cefnogi pobl yn ein cymunedau.
Gwasanaethau Plant ac Oedolion	Mae'r oedran y caiff plentyn ei drin fel oedolyn yn wahanol yn dibynnu ar ba ddeddfwriaeth sy'n cael ei hystyried. At ddibenion y Cod bydd y cyfnod pontio o blentyn i oedolyn yn 18 oed.
Gwybodaeth a chymorth	Gweler Cymorth isod. Gall fod yn wybodaeth ffisegol fel taflenni, llyfrau a chyhoeddiadau yn ogystal â ffynonellau rhithwir fel cyfeirio at wefannau.

Term	Ystyr
G wybodaeth, Cyngor a Chymorth	Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig pwynt cyswllt cyntaf gyda'r system gofal a chymorth. Drwy gyfeirio ac atgyfeirio, mae gweithwyr Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn gallu rhoi dewisiadau i unigolion ynglŷn â'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, gan roi cyfle iddynt drafod yr opsiynau a chael cyngor ar yr hyn sy'n fwyaf tebygol o ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth penodol, yn ogystal â thrafod pa adnoddau sydd gan yr unigolyn ei hun i sicrhau'r cymorth hwn. Mae'r gwasanaeth yn agored i bawb, beth bynnag fo'u hamgylchiadau.
G wybodaeth sydd ar gael ar gyfer asesiad	Adroddiadau addysgol, adroddiadau seicolegol, adroddiadau meddygon teulu, arsylwadau rhieni/gofalwyr, safbwynt yr unigolyn.
H unaneiriolaeth	Y sgiliau a'r wybodaeth i fynegi eu llais a'u pryderon eu hunain.
H yrwyddwr Awtistiaeth	Fel arfer, berson a nodwyd sydd eisoes yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Bydd gan y person hwn ddealltwriaeth o anghenion y gymuned awtistig a bydd yn eiriolwr dros bobl awtistig wrth ddatblygu gwasanaethau lleol.
L lwybr	Mae llwybrau yn cael eu darparu ar draws y gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn mapio ein teithiau iechyd, gofal a chymorth, lle mae'r camau gwahanol y gall unigolyn eu cymryd yn cael eu diffinio a'u dilyn.
L lwybrau asesu	Dull amlddisgyblaethol/asiantaeth sy'n nodi'r tasgau neu ymyriadau gwahanol i'w cymryd gan weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofal person i sicrhau'r canlyniadau a'r cymorth gorau posibl. Bydd hyn yn sicrhau bod anghenion niwroddatblygiadol yr unigolyn a'i deulu/gofalwyr yn cael eu diwallu.
N ICE (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal)	Mae NICE yn creu argymhellion seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael eu datblygu gan bwyllgorau annibynnol sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol ac aelodau lleig, cyn ymgynghori arnynt gyda rhanddeiliaid.
P asbort Iechyd	Wedi'i gynllunio i helpu pobl awtistig i gyfleu eu hanghenion i feddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Wrth fynychu apwyntiad iechyd neu pan gânt eu derbyn i'r ysbyty am driniaeth dylid gwneud trefniadau i'r pasbort fod gyda'r person a'i roi i'r ymarferwr sy'n gyfrifol am ofal y person. Dylid cadw'r pasbort gyda nodiadau'r person bob amser. Pasbort Iechyd

Term	Ystyr
P ontio	Yn aml, bydd symudiad o wasanaethau plant i wasanaethau i oedolion neu o wasanaethau diogel i rai cymunedol, yn dibynnu ar oedran a sefyllfa'r unigolyn. Rhaid i'r gwasanaethau hyn gydweithio â'i gilydd a rhaid i'r llwybrau fod mor gydnaws a chyson â phosibl.
P roffiliau Personol	Nod proffil personol yw rhoi'r darlun cyfredol mwyaf manwl o gryfderau a gwendidau unigolyn. O'r wybodaeth hon gellir gwneud addasiadau rhesymol i hwyluso gwell profiadau gwasanaeth i'r unigolyn.
P wynt cyswllt cyntaf	Dyma'r unigolyn cychwynnol i drafod y pryder am awtistiaeth. Gellir bod o wasanaeth ofal brys, yn delio a galwadau 111, neu derbynnydd gwasanaeth er enghraifft awdurdod lleol neu feddygaeth teulu.
S efydliadau diogel	Mae sefydliadau diogel (neu'r ystad ddiogeledd) yn cynnwys carchardai, safleoedd cymeradwy, llety mechnïaeth a llety cadw pobl ifanc.
S giliau cymdeithasol a chyfathrebu cilyddol	Trafferthion â rhyngweithio a sgysiau cymdeithasol cilyddol. Anawsterau gan gynnwys meddiannu sgwrs a siarad yn fanwl am ddiddordebau neu ymateb i gwestiynau gydag atebion byr a phenodol, heb ymhelaethu. Efallai bydd yr unigolyn yn cael trafferth gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn cael gwybodaeth am eraill ac yn dangos anhawster o ran ymateb i, adnabod a dehongli bwriadau cymdeithasol a chyflyrau emosiynol eraill.
T reiddioldeb	Yn bresennol drwyddi draw ac yn effeithio ar bob agwedd neu sawl agwedd ar fywyd unigolyn.
U n man cyswllt	Un man yn benodol o fewn gofal iechyd neu ofal cymdeithasol sy'n derbyn a gweithredu cyfeirebau asesi/ diagnosis awtistiaeth i blant/pobl ifanc ac oedolion.
Y marferwyr	Unigolion sy'n cefnogi pobl awtistig.
Y mddygied heriol	Mae'r term yn disgrifio amrediad o ymddygiadau sy'n amharu ar y bobl eu hun neu'r bobl o'u cwrpas ac yn gallu gosod eu hunain ac eraill mewn perygl neu ymddygiad sy'n atal defnydd o, neu hawl wedi'i rhwystro i gyfleuster cymunedol.
Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.